# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Little Miners yn Ysgol yr Hafod, Johnstown**

**Ysgol Yr Hafod**
**Melyd Avenue**
**Johnstown**
**LL14 2AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/10/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Grŵp Chwarae Little Miners yn gweithredu o Ysgol yr Hafod yn Johnstown ger Wrecsam.
Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 37 o blant dan 12 oed ac mae ar agor ar hyn o bryd rhwng 11:30 a.m. a 3:00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Rhian Evans-Trott yw'r unigolyn cyfrifol a Natalie Bain-Foster yw'r person â chyfrifoldeb. Prif iaith y gwasanaeth yw Saesneg ond caiff y defnydd o'r Gymraeg ei annog a'i hyrwyddo, ond nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arwain a Rheoli** | **Digonol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn cael budd o amrywiaeth gynhwysfawr o weithgareddau y gallant eu dewis eu hunain, a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae gan y plant amgylchedd ysgogol sydd â digon o adnoddau ardderchog i chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cael gofal gan staff sy'n gweithio yn yr ysgol ac yn deall sut i'w cadw'n ddiogel ac sy'n hyrwyddo chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol. Mae'r cydberthnasau rhwng y pwyllgor, yr ysgol, y staff a'r rhieni yn gadarnhaol ac yn gefnogol. Mae'r arweinwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn briodol. Maent yn annog adborth ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

### 2. Gwelliannau

Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru, ond mae cyfarpar newydd wedi cael ei brynu i'r plant gan gynnwys ardal gartref newydd.
Mae'r person â chyfrifoldeb wedi cwblhau ei chymhwyster lefel 3 mewn gofal plant, dysgu ac addysg.
Yn dilyn yr arolygiad, cafodd AGC ddogfennaeth i ddangos y canlynol:

- Mae'r rhif ffôn ar gyfer AGC wedi cael ei newid ar y polisïau cwynion ac amddiffyn plant;

- mae'r ffurflen gais bellach yn cynnwys hanes cyflogaeth llawn ac mae unrhyw fylchau wedi'u hesbonio;
- mae gan y ffurflen manylion personol ar gyfer y plant le i gofnodi rhywedd y plentyn.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu'r unigolion cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â ffeiliau'r staff (rheoliad 28) a goruchwylio'r staff (rheoliad 29), er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi'i gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas â gwybodaeth am fwyta'n iach.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn fodlon eu byd yn treulio amser yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn gwrando arnynt, a gallant wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau fel y dymunant. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion. Maent yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau i gynnal eu diddordeb. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i feithrin hyder a datblygu sgiliau annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Cafodd y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau ac roedd eu diddordebau a'u barn yn cael eu gwerthfawrogi, a chymerwyd camau ar sail hynny. Roedd y plant yn rhydd i symud rhwng gweithgareddau fel y dymunent. Gwnaethant ddefnydd da o bob ardal yn yr ystafell, ac roedd nifer ohonynt yn mwynhau chwarae yn yr ardal chwarae rôl yn benodol, lle roedd digon o adnoddau i'r plant chwarae gyda'i gilydd. Roedd pob dull cyfathrebu yn cael ei werthfawrogi ac yn cael ymateb yn brydlon, a oedd yn gwneud i'r plant deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, gofynnodd y plant am gael cwrs rhwystrau yn yr ardal awyr agored a darparodd y staff hwn. Gwnaeth y plant fwynhau'r gweithgaredd gan wenu a chwerthin wrth iddynt gwblhau'r cwrs.

Roedd y plant wedi ymgartrefu, yn fodlon eu byd ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Roeddent yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a oedd ar gael a'r drefn ddyddiol, ac roeddent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff. Er enghraifft, ymatebodd y plant yn dda i'r drefn o siarad am y tywydd a chanu caneuon cyfarwydd ar ddechrau'r sesiwn. Roedd un plentyn, a oedd ar ei sesiwn gyntaf y tymor hwn, yn cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau ac yn fodlon iawn drwy gydol y dydd.

Roedd y plant wedi meithrin cyfeillgarwch â'i gilydd, ac wedi dysgu i gymryd eu tro a rhannu. Roeddent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u cyfoedion ac roeddent yn hapus i rannu adnoddau a chymryd eu tro. Er enghraifft, roeddent yn hapus i aros eu tro i gymryd bynsen o'r siop fara wrth actio'r gân 'Five currant buns'. Gwelsom y plant yn rhannu glud ac adnoddau eraill ar y bwrdd creadigol ac roeddent yn cymryd diddordeb yng ngwaith ei gilydd, gan ddangos parch at eraill.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Roeddent yn ymddiddori yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau, yn gofyn cwestiynau ac yn awyddus i ymuno â'u ffrindiau. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn mwynhau gwneud cuddfan yn yr awyr agored. Roeddent yn gweithio gyda'i gilydd i gasglu'r adnoddau roedd eu hangen arnynt gan gynnwys coesau brwshis llawr, paneli decin pren a tharpolin. Roeddent yn mwynhau eistedd yn eu cuddfan, gan sgwrsio â'i gilydd a sicrhau nad oeddent yn symud o gwmpas yn ormodol rhag ofn i'r guddfan gwympo.

Cafodd y plant gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i ddysgu bod yn annibynnol. Dywedodd un plentyn wrthym ei fod am dynnu llun i'w fam a'i dad. Casglodd yr adnoddau roedd eu hangen arno, gan gynnwys papur a phensil, heb gymorth, a oedd yn dangos ei fod yn gyfarwydd â chynllun yr ystafell a bod yr adnoddau ar gael yn hawdd. Anogwyd y plant i dacluso yn ystod cyfnodau trosglwyddo a gwisgo eu cotiau eu hunain.

## 2. Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r plant sydd yn eu gofal ac maent yn sensitif i anghenion plant unigol. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac maent yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau i amddiffyn plant, ac roedd tystysgrifau'n dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu. Roeddent yn ymwybodol o'r angen i ddogfennu unrhyw bryderon neu anafiadau presennol a'r rhesymau dros wneud hynny. Roedd gan y staff gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, a oedd wedi eu paratoi i reoli argyfyngau meddygol a mân anafiadau. Roedd damweiniau yn cael eu cofnodi a ffurflenni yn cael eu llofnodi gan rieni. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cwblhau a'r manylion wedi'u cofnodi ar ffurflen. Roedd yr ysgol yn rhan o'r fenter ysgolion iach sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda deiet maethlon a gweithgareddau corfforol. Aeth rhai o'r plant i gasglu eu cinio ysgol a dod ag ef yn ôl i'w fwyta yn yr ystafell grŵp chwarae tra bo gan eraill becyn cinio o gartref. Roedd y staff yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar fwyd a maeth mewn lleoliadau gofal plant a gofynnwyd iddynt ddod o hyd i ffyrdd o ddarparu canllawiau i rieni ar becynnau cinio iach er mwyn annog arferion bwyta da o'r adeg y mae'r plant yn dechrau yn yr ysgol. Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu ffrwythau ffres yn ystod amser byrbryd gyda dŵr neu laeth i'w yfed. Roedd chwarae yn yr awyr agored yn rhan o'r drefn ddyddiol ac roedd yn cynnig cyfle da i'r plant fod yn egnïol. Roedd y staff yn hyrwyddo hylendid da, gan annog a chefnogi'r plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd gynnes ac annwyl ac ar lefel llygaid lle y bo'n bosibl. Roeddent yn annog rhyngweithio cadarnhaol a phan nad oedd ymddygiad yn briodol defnyddiodd y staff iaith gadarnhaol. Er enghraifft, dywedodd aelod o'r staff "we walk indoors" wrth un plentyn yn hytrach na dweud wrtho am beidio â rhedeg o gwmpas yr ystafell ddosbarth. Roedd hyn yn dangos eu bod yn atgyfnerthu ymddygiad da ac roedd yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Roedd y plant yn cael canmoliaeth am eu hymdrechion drwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, roedd un plentyn wedi gosod nifer o anifeiliaid bach ar ben ei gilydd a dywedodd aelod o'r staff wrtho, “amazing, let me take a photo of your tower of animals. How many have you got?” Roedd y plant yn mynd â llyfr atgofion adref ar ddiwedd y flwyddyn ysgol a oedd yn cynnwys cofnod o weithgareddau, gan gynnwys lluniau. Roedd y sylwadau mewn un llyfr atgofion yn cynnwys “you have good control of your pen and your grip has improved”, a “you enjoyed searching our outdoor

areas for leaves to make a hedgehog”.  Mae gwneud sylwadau cadarnhaol yn ffordd dda o gynyddu hunan-barch y plant.

Roedd y staff yn darparu gofal mewn ffordd hamddenol ac yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau i gefnogi anghenion unigol y plant, gan ddefnyddio amser ar ddiwedd pob wythnos i drafod unigolion a chynllunio'r camau nesaf yn eu datblygiad. Roedd y staff yn cydnabod pan roedd gan blentyn anghenion ychwanegol a gofynnwyd am help gan weithiwr proffesiynol arall er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael ei gefnogi'n briodol. Roedd rhai gweithgareddau wedi'u cynllunio ymlaen llaw, yn unol â'r thema, ond roedd y staff hefyd yn sicrhau eu bod yn cynnwys diddordebau penodol y plant. Ar hyn o bryd, roedd y plant wedi dangos diddordeb mewn adeiladu cuddfan, ac roedd adnoddau wedi cael eu darparu i gefnogi hyn. Anogir sgiliau dychmygus da drwy ddefnyddio nifer o fasgedi bach o adnoddau naturiol megis cerrig mân, blociau bach o bren, gleiniau gwydr a moch coed.

## 3. Yr Amgylchedd **Rhagorol**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân, sydd mewn cyflwr da iawn dan do ac yn yr awyr agored. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd chwarae cyffrous. Caiff y defnydd o amrywiaeth eang o ddeunyddiau cynaliadwy ei hyrwyddo i ysgogi diddordeb a dychymyg y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac mewn cyflwr da iawn dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yn rhaid i unrhyw ymwelwyr ddefnyddio prif fynedfa'r ysgol a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Roedd y plant yn defnyddio'r ystafell fel meithrinfa'r ysgol cyn y sesiwn grŵp chwarae ac roedd y rhieni'n defnyddio drws a oedd yn arwain yn syth i'r ystafell i gasglu eu plant, ond roedd y drws hwn yn cael ei gadw ar glo yn ystod y sesiwn. Roedd y plant yn cael eu cadw'n ddiogel yn yr awyr agored gan fod y giatiau'n cael eu cadw ar glo ac roedd rhan o'r maes chwarae wedi'i gorchuddio ag arwyneb diogel a oedd yn galluogi'r plant i gymryd rhan mewn chwarae corfforol yn ddiogel. Cedwid cofrestr ddyddiol o'r staff a'r plant a oedd yn bresennol er mwyn sicrhau y gellid cyfrif am bawb mewn argyfwng ac roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi i ddangos bod y plant yn gwybod sut i adael yr ystafell yn ddiogel. Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gan staff ategol yr ysgol bob dydd. Roedd yr arweinwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol ar gyfer oedran y plant. Gwelsom y plant yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys coesau brwshis llawr a phaneli decin i greu eu cuddfan ac roedd aelod o'r staff yn goruchwylio hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael help i gario'r paneli a'u bod yn cael eu gosod yn ddiogel. Hefyd, gwelsom y plant yn defnyddio cwrs rhwystrau yn yr awyr agored, yr oedd angen cydbwysedd da i'w gwblhau. Rheolwyd hyn drwy roi'r cwrs ar yr arwyneb diogel ac ar uchder lle na fyddai'r plant yn debygol o anafu eu hunain pe baent yn colli eu cydbwysedd. Mae ymarfer cydbwyso yn helpu i ddatblygu sgiliau echddygol bras ac yn cynyddu sefydlogrwydd plant ifanc.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac awyr agored yn groesawgar ac yn annog y plant i chwarae'n annibynnol. Roedd y plant yn gallu symud o gwmpas yr ystafell yn rhydd ac roedd pob adnodd ar gael yn hawdd ac wedi'i labelu'n dda. Roedd yr adnoddau wedi'u gosod mewn ardaloedd o gwmpas yr ystafell i adlewyrchu'r fframwaith cyfnod sylfaen ar gyfer dysgu plant yng Nghymru. Roedd yr ystafell chwarae yn olau, yn lliwgar ac yn groesawgar. Roedd un wal yn cynnwys gwybodaeth a ddefnyddir ar ddechrau'r sesiwn megis siart tywydd. Roedd samplau o waith y plant wedi'u harddangos yn falch, gan roi ymdeimlad o berthyn a chyflawniad iddynt. Roedd y celfi a'r adnoddau i gyd yn diwallu anghenion y plant. Roedd y byrddau a'r cadeiriau, y toiledau a'r sinciau ar

uchder addas ar gyfer plant er mwyn galluogi'r plant i'w defnyddio ac ymarfer sgiliau hunangymorth yn annibynnol.

Roedd yr arweinwyr yn darparu teganau i'r plant a oedd mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygiad y plant. Roedd llawer o adnoddau gwych i ennyn diddordeb a thanio dychymyg y plant. Roedd hyn yn cynnwys ardal greadigol lle gallai'r plant ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys glud a siswrn, er mwyn eu galluogi i greu eu lluniau eu hunain. Roedd digon o adnoddau yn yr ardal chwarae rôl gyda chegin bren, peiriant golchi dillad a bwrdd a chadeiriau o ansawdd da. Roedd yr ardal hon yn helpu'r plant i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymdeithasu a chydweithio â'u cyfoedion. Roedd yr ardal adnoddau naturiol yn galluogi'r plant i ddefnyddio eu dychymyg i greu lluniau, adrodd straeon ac actio rolau gan ddefnyddio'r llawr fel eu llwyfan.

Roedd gan y plant fynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr adnoddau'n cefnogi holl feysydd y cyfnod sylfaen ac yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth a sgiliau sy'n addas ar gyfer oedran y plant megis cyfathrebu, sgiliau iaith a chwarae corfforol. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd ehangach yn yr ysgol. Yn ogystal â'r ardal chwarae gaeedig, mae gan y plant fynediad at ardaloedd eraill yr ysgol gan gynnwys gwesty pryfed, ardal iaith a llythrennedd, rhandir, cegin fwd, a phwll cerrig mân â phalwyr. Mae'r plant yn mynd ar deithiau natur, sydd wedi cynnwys casglu nodwyddau pinwydden i'w defnyddio ar gyfer lluniau o ddraenogod. Mae'r briciau sbwng mawr yn yr awyr agored yn galluogi'r plant i ddefnyddio eu dychymyg. Yn ogystal â'r cwrs rhwystrau, gwelsom un plentyn yn adeiladu tŵr a gwelsom ffotograffau o'r plant yn "hedfan" drwy neidio oddi ar y briciau.

## 4. Arwain a Rheoli — Digonol

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal ac yn eu rhoi ar waith. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gasglu adborth ac adolygu ansawdd y gwasanaeth fel y gall yr arweinwyr gynllunio gwelliannau a sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu'n barhaus. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin gyda'r ysgol, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn gwella canlyniadau i'r plant a sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu'n effeithiol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, a llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol, yn yr un modd ag y mae'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae'r arweinwyr wedi cymryd camau ar sail adborth a gafwyd ac wedi newid rhai dogfennau. Er enghraifft, mae'r amseroedd presenoldeb wedi'u hychwanegu at y gofrestr. Mae pob plentyn yn mynd yn syth i'r grŵp o ddosbarth meithrin yr ysgol am 11.30am a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cofnodi pan oedd plant wedi gadael yn gynnar oherwydd salwch neu ymweliad â'r deintydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, ond mae'n annog y defnydd o'r Gymraeg gyda'r staff yn defnyddio geiriau Cymraeg drwy gydol y sesiwn. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r rhyngrwyd, cydweithwyr proffesiynol a hyfforddiant i roi arferion gorau ar waith. Maent wedi cael cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill i gefnogi'r plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae'r arweinwyr yn gofyn am adborth gan y staff, y plant a'r rhieni er mwyn gwella eu gwasanaeth.
Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru ac nid oes angen cynnal yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal tan y flwyddyn newydd. Er mwyn paratoi, maent wedi llunio ffurflen i'r plant ei chwblhau gan ddefnyddiau wynebau hapus a thrist lle y bo'n bosibl. Mae'r rhieni wedi cwblhau holiaduron er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae'r rhain yn dangos bod y rhieni'n hapus gyda'r gwasanaeth. Yn eu barn nhw mae'r staff yn gwrtais, yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar iawn. Mae'r staff yn cyfarfod ar ddiwedd pob wythnos ac yn defnyddio'r amser hwn i drafod unrhyw faterion am blant unigol ac unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth. Mae'r cyfarfod hwn hefyd yn galluogi'r holl staff i gyfrannu syniadau ar gyfer gweithgareddau.

Roedd ffeiliau'r staff yn drefnus ar y cyfan, ond nid oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Gwelsom nad oedd y ffurflen gais yn cynnwys cofnod llawn o gyflogaeth na chofnod o'r rheswm dros unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. Darparwyd ffurflen ddiwygiedig yn cynnwys y wybodaeth hon yn dilyn yr arolygiad. Nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys datganiad iechyd ac mewn un ffeil, roedd llun a thystiolaeth o dystysgrif geni ar goll.

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod arfarniadau blynyddol wedi'u cwblhau. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn gallu mynd at y person â chyfrifoldeb ar unrhyw adeg i drafod unrhyw faterion neu anghenion hyfforddiant, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth. Cynghorwyd yr arweinwyr i ddarparu cyfarfodydd goruchwylio un i un er mwyn cynnig cyfleoedd i'r staff drafod eu hanghenion gan gynnwys eu datblygiad personol eu hunain.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth ar ffeil o wybodaeth a gasglwyd gan y rhieni a oedd yn nodi anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Roedd gan y staff gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac roeddent yn cyfathrebu â nhw bob dydd. Roedd y rhieni'n cael llyfr atgofion ar ddiwedd y tymor, yn nodi'r ffordd roedd eu plentyn wedi datblygu, gyda ffotograffau a sylwadau. Mae gan y gwasanaeth dudalen cyfryngau cymdeithasol lle caiff gwybodaeth a lluniau o'r gweithgareddau eu rhannu. Mae'r rhieni wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar y dudalen hon gan gynnwys dweud faint roedd eu plentyn wedi mwynhau gweithgaredd penodol. Gwnaethom siarad â'r pennaeth, sy'n cefnogi'r gwasanaeth yn llawn ac yn cydnabod pa mor werthfawr yw'r gwaith i'r ysgol, y rhieni a'r plant. Ar hyn o bryd, mae'r person â chyfrifoldeb yn defnyddio ap cyfrifiadurol, er mwyn cofnodi lluniau, gweithgareddau a sylwadau i gael eu cofnodi ar gyfer plant unigol. Y bwriad yw rhannu'r wybodaeth hon â'r rhieni fel dull ychwanegol o gyfathrebu. Bydd hyn yn fuddiol yn enwedig o ran helpu'r rhieni sy'n gweithio oddi cartref efallai, neu sy'n gweithio sifftiau, sy'n golygu nad ydynt yn gallu siarad â'r staff wyneb yn wyneb.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhelliad canlynol o ran arfer i'r arweinwyr ei ystyried:

- rhoi gwybodaeth i'r rhieni am becynnau cinio iach gan ddefnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru; canllawiau ar fwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant;

- cynnig sesiynau goruchwylio un i un i'r staff yn rheolaidd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 17 Hydref 2019 rhwng 11:28am a 3:40pm.
Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb, yr unigolyn cyfrifol a'r pennaeth;
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- rhoi adborth manwl i'r unigolyn cyfrifol ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Rhian Evans-Trott** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Natalie Bain-Foster** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **37** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng tair a phedair oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor rhwng 11.30 am a 3:00 pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **17 Hydref 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Rydym yn argymell y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried 'canllawiau strategol olynol Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru**<br>**ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol'.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/02/2020